EISTEDDFOD

Crynodeb Gweithredol: Adolygiad annibynnol o gystadlaethau perfformio'r Eisteddfod

## 1 Cefndir

Yn dilyn eu penodi drwy broses dendr agored yn hydref 2021, bu cwmni OB3 yn cynnal adolygiad o holl gystadlaethau'r Eisteddfod, gan gychwyn gyda chystadlaethau llwyfan ddechrau 2022.

Pwrpas yr ymchwil oedd adolygu rhaglen gystadlu bresennol yr Eisteddfod er mwyn adnabod unrhyw newidiadau fyddai'n sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau yn gyfredol ar gyfer y dyfodol. Bwriad yr adolygiad oedd casglu a dadansoddi barn ac adborth ystod eang o randdeiliaid ar y cystadlaethau perfformio er mwyn cynorthwyo'r Eisteddfod i gynllunio ar gyfer y dyfodol mewn ffordd gynaliadwy

Gyda chyfuniad o holiaduron, grwpiau ffocws a chyfweliadau un-i-un, cafodd cystadleuwyr hen a newydd, rhanddeiliaid, partneriaid ac ymwelwyr eu gwahodd i fynegi barn am y cystadlaethau. Anfonwyd neges e-bost at bawb, ynghyd â dwy erthygl yng nghylchlythyr yr Eisteddfod a negeseuon rheolaidd ar sianeli cyfryngau cymdeithasol, gyda'r cyfan yn cynnwys y ddolen i'r holiadur. Yn ogystal, cynhaliwyd grŵp ffocws gyda Phwyllgor Diwylliannol yr Eisteddfod ym mis Mawrth 2022.

Roedd 91% o'r rheini a ymatebodd i'r holiadur yn ymwelwyr â'r Eisteddfod, a 62% yn gystadleuwyr, gyda 63% o'r rheini wedi cystadlu mewn cystadlaethau corawl yn y Brifwyl, a dyma oedd yr adran gystadlu gyda'r nifer uchaf o ymatebwyr i'r holiadur.

## 2 Blaenoriaethau Strategol yr Eisteddfod sy'n berthnasol i'r Adolygiad

- **Blaenoriaeth 1:** Codi ymwybyddiaeth o'r Eisteddfod fel prif ŵyl ddiwylliannol Cymru, adref ac yn rhyngwladol drwy gyfathrebu i wella dealltwriaeth o'r Eisteddfod fodern, cynllunio digwyddiadau ar hyd y flwyddyn a datblygu partneriaethau rhyngwladol;
- **Blaenoriaeth 2:** Hyrwyddo'r Gymraeg, yn enwedig ymysg pobl ifanc a dysgwyr drwy gynyddu gwaith hyrwyddo ymysg pobl ifanc, creu cyfleoedd newydd i ddenu a chynyddu cyfleoedd i ddysgwyr;
- **Blaenoriaeth 6:** Creu Eisteddfod sydd yn hygyrch ac yn groesawus i bobl o bob oed a chymuned drwy ddathlu cymunedau amrywiol Cymru a denu cynulleidfaoedd difreintiedig;
- **Blaenoriaeth 7:** Anrhydeddu cyfrifoldeb yr Eisteddfod i lesiant cenedlaethau'r dyfodol drwy hyrwyddo iaith a diwylliant, tynnu pobl at ei gilydd a lleihau effeithiau amgylcheddol yr Ŵyl.

## 3 Cystadlaethau'r Eisteddfod

Mae'r Eisteddfod yn cynnal dros 180 o gystadlaethau (perfformio, llenyddol a chyfansoddi) bob blwyddyn ar draws 13 genre gwahanol, gyda'r mwyafrif o'r rhain yn gystadlaethau perfformio ar draws 10 genre, gyda genres unawdau ac offerynnol yn cynnig y nifer fwyaf o gystadlaethau. Mae'r cystadlaethau perfformio yn cael eu cynnal dros Ŵyl wyth diwrnod o'r dydd Sadwrn cyntaf i'r Sadwrn olaf yn ystod wythnos gyntaf mis Awst.

Mae lleoliad daearyddol yr Eisteddfod yn dylanwadu ar y niferoedd sy'n cystadlu. Mae ambell i genre yn gryfach pan fydd yr Eisteddfod yn y gogledd (e.e. cerdd dant) tra bod eraill (e.e. bandiau pres) yn gryfach yn y de. Mae'r amrywiadau hyn yn arbennig o wir am gystadlaethau grŵp.

## 4 Pwysigrwydd cystadlaethau perfformio'r Eisteddfod

Mae cystadlaethau perfformio'r Eisteddfod yn cael eu hystyried fel elfen hollbwysig sy'n rhoi pwrpas i'r Ŵyl. Roedd cytundeb barn ymhlith cyfranwyr bod angen gwarchod yr elfen gystadlu a sicrhau ei fod yn parhau yn elfen ganolog o'r Ŵyl i'r dyfodol.

Roedd 88% o'r rheini a holwyd fel rhan o'r adolygiad yn credu bod cystadlaethau perfformio'r Eisteddfod yn bwysig iawn, gyda dim ond 1% yn nodi nad yw'r elfen gystadlu'n bwysig o gwbl.

Pan ofynnwyd a oes angen newid ystod neu nifer y cystadlaethau perfformio, roedd yr ymateb yn llai pendant gyda 34% yn credu na ddylid newid, 28% yn credu bod angen newid a 36% ddim yn gwybod a ddylid newid. Roedd barn gweddol gyffredin ymhlith y rhai a gyfwelwyd bod nifer y cystadlaethau perfformio a gynigir gan yr Eisteddfod yn rhy niferus a bod yna sgôp i 'chwynnu' a 'chwtogi' rhywfaint ar y rhain. Teimlwyd y byddai hyn o fudd wrth geisio cynnal safon a niferoedd y cystadleuwyr.

Un anhawster amlwg o geisio adnabod cystadlaethau i'w cwtogi oedd bod unigolion sy'n ymddiddori yn eu maes penodol yn ceisio gwarchod niferoedd y cystadlaethau yn y genre yma ac felly'n amharod i dderbyn unrhyw doriad.

## 5 Safon

Wrth drafod safon, un cwestiwn allweddol a godwyd gan gyfranwyr oedd ynghylch pwrpas y cystadlu. Tra bod rhai o'r farn mai diben y cystadlu yw gosod safon genedlaethol aruchel ar gyfer diwylliant Cymru roedd eraill yn teimlo'n gryf iawn bod gan yr Eisteddfod rôl bwysig hefyd i hyrwyddo'r cyfle i gystadlu, boed o safon ai peidio, gan fod hyn yn rhan annatod o strategaeth yr Eisteddfod o ddenu'n ehangach.

Roedd rhai'n dadlau ei bod hi'n bwysig cynnig cyfle i bob cystadleuaeth dorfol ymddangos ar lwyfan yr Eisteddfod er bod hyn yn codi anawsterau trefniadol yn rheolaidd. Nododd eraill bod yr arfer o gynnig llwyfan i bob cystadleuaeth dorfol, a all gynnwys grwpiau o safon isel, hefyd greu anawsterau wrth ddarlledu h.y. ei fod yn rhoi'r argraff bod safon y cystadlu yn gyson isel i wrandawyr sy'n gwylio o'u cartrefi.

Nodwyd hefyd ar y llaw arall y gellid creu gofod neu lwyfan berfformio ar wahân ar y Maes, ar gyfer cystadleuwyr torfol (nad ydynt eto yn barod neu o safon ddigonol i berfformio ar brif lwyfan yr Ŵyl ) er mwyn sicrhau eu bod yn rhan o'r Ŵyl, tra hefyd yn sicrhau ansawdd.

## 6 Trefn Cystadlu

Mae'r ffaith nad yw'r amserlen gystadlu ar gael ymlaen llaw yn gallu creu anawsterau i gystadleuwyr o safbwynt teithio, aros dros nos a chael amser i ffwrdd o'r gwaith. Mae rhai cystadleuwyr yn amharod i gofrestru heb wybodaeth bendant am y diwrnod cystadlu (neu ddiwrnodau cystadlu os yw'r rhagbrawf yn cael ei gynnal ar ddiwrnod gwahanol i'r brif gystadleuaeth neu os ydynt yn cystadlu mewn mwy nag un gystadleuaeth).

Ar hyn o bryd mae'n amhosibl darparu'r wybodaeth yma ymlaen llaw oherwydd bod gan nifer o grwpiau'r hawl i gystadlu ar lwyfan yr Eisteddfod heb ragbrawf neu rownd gynderfynol. Nid oes modd amserlennu'r cystadlaethau tan fod staff yr Eisteddfod yn gwybod faint sydd wedi cofrestru ar gyfer pob cystadleuaeth.

Awgrymwyd mai un ateb posib fyddai cyfyngu ar y niferoedd sy'n cael cystadlu ar lwyfan. Byddai hyn yn caniatáu i'r Eisteddfod ddatblygu amserlen gystadlu fanwl (fel Eisteddfod yr Urdd yn arferol) a'i chyhoeddi mewn da bryd cyn y dyddiad cau i gofrestru.

Rhoddodd rhai cyfranwyr bwyslais mawr ar bwysigrwydd ymddangos yn y pafiliwn, gan fod hyn yn dod â statws a bri i'r cystadleuwyr. O bersbectif y gynulleidfa fodd bynnag, gall hyn greu rhaglen undonog iawn yn enwedig ar gyfer y cystadlaethau hynny sy'n denu llai o gynulleidfa fel arfer.

Mae teimlad cryf bod angen mynd i'r afael â'r mater yma a chytuno a ddylid rhoi cyfyngder o nifer penodol o gystadleuwyr ar y llwyfan ar gyfer pob cystadleuaeth. Byddai hyn yn sicrhau tegwch ar draws cystadlaethau hefyd e.e. holodd rhai am ddiffyg tegwch rhoi holl gystadlaethau corawl ar y llwyfan ond nid genres eraill. Awgrym arall oedd y dylid edrych ar y broblem mewn ffordd wahanol a 'dyrchafu'r is-bafiliynau i gael yr un statws â'r pafiliwn'.

## 7 Newidiadau i'r drefn gystadlu

O ran newidiadau i'r drefn gystadlu ar gyfer y dyfodol, cafwyd cysondeb barn bod angen:

- i'r cystadlaethau llwyfan redeg yn fwy slic. Un prif ffactor sy'n effeithio ar hyn ydi'r ffaith bod grwpiau sydd wedi cofrestru i gystadlu ddim yn troi fyny ar y diwrnod ac mae hyn yn creu bylchau yn y rhaglen
- mynd i'r afael a'r anhawster presennol o gystadlaethau yn gor-redeg yn y pafiliwn, ac amser paratoi prin ar gyfer cyngherddau nos yn cael ei golli
- ceisio cynnal rhagbrofion ac ymddangosiad llwyfan o fewn yr un gystadleuaeth ar yr un diwrnod
- ystyried ffyrdd o sicrhau tegwch yn y drefn ymddangos mewn rhagbrofion gan fod cystadleuwyr pybyr yn aml yn dod yn hwyr i'r rhagbrawf am nad ydynt awydd mynd yn gyntaf.

Cynigwyd rhai syniadau mwy arloesol i newid y drefn gystadlu megis:

- ystyried y defnydd o ofodau gwahanol fyddai'n gweddu ar gyfer gwahanol fathau o gystadlaethau, gan nad y Pafiliwn o reidrwydd yw'r lleoliad gorau ar eu cyfer. Er enghraifft, cynigwyd y gellid creu platfform gwahanol ar gyfer llwyfannu cystadlaethau unigol, fyddai'n addas ar gyfer darlledu. Cynigiwyd hyn ar y sail bod niferoedd cynulleidfa yn wan iawn ar gyfer cystadlaethau unigol llwyfan yn ystod y boreau ac yn rhoi profiad gwael i gystadleuwyr.
- ystyried cwtogi nifer y diwrnodau caiff cystadlaethau eu cynnal dros yr Ŵyl, er mwyn ei gwneud yn haws denu cystadleuwyr a chynulleidfa iddynt
- ystyried cwtogi'r cystadlu i amseroedd penodol yn ystod y dydd (h.y. gan gychwyn yn hwyrach am 11:00 a chwblhau erbyn 17:00), gan osgoi nosweithiau Mercher a Gwener, er mwyn sicrhau nad yw'r cystadlu yn gwrthdaro gyda gweithgareddau eraill yr Ŵyl
- creu gwyliau bychain o fewn yr Ŵyl megis Gŵyl Gorawl, Gŵyl Ddawns ac ati, er mwyn denu pobl i gystadlu mewn mwy nag un gystadleuaeth ar draws yr un genre. Byddai hyn o gymorth i grwpiau penodol i fynychu e.e. byddai cynnal cystadlaethau stepio a dawnsio gwerin ar yr un dydd yn ei gwneud yn haws i fwy o grwpiau i gystadlu
- dysgu o wersi Eisteddfod Amgen a gwneud mwy o ddefnydd o ddeunydd digidol ar gyfer profi cymhwysedd i gystadlu yn yr Eisteddfod. Gallai hyn fod yn briodol ar gyfer cystadlaethau poblogaidd megis cân sioe gerdd, lle mae'r niferoedd sy'n cystadlu yn uchel ond y safon yn amrywiol.

## 8 Denu cystadleuwyr

Er bod cystadleuwyr profiadol yn ei chael hi'n weddol rwydd i gael gwybodaeth am gystadlaethau'r Eisteddfod, mae angen defnyddio ffyrdd eraill o ddarparu gwybodaeth am gystadlaethau er mwyn targedu a denu cystadleuwyr newydd.  Nodwyd bod angen gwella'r wefan er mwyn i gystadleuwyr greu proffil cystadlu a fyddai'n weithredol drwy gydol y broses, a bod angen creu system o gyflwyno copïau cystadlu'n electronig er mwyn helpu beirniaid a chyfeilyddion yn y cyfnod prysur cyn yr Ŵyl.

Y prif syniadau a gynigwyd am sut i gynyddu nifer y cystadleuwyr oedd:

- hyrwyddo a marchnata cystadlaethau yn benodol i ddarpar gystadleuwyr, sy'n wahanol i farchnata'r Ŵyl i gynulleidfa darged;
- defnyddio gweithwyr/cenhadon maes i dargedu a hyrwyddo cystadlaethau i grwpiau ac unigolion, boed hynny drwy ysgolion, golegau neu sefydliadau eraill;
- cynnig cyfleoedd dilynol fel gwobrau yn dilyn llwyddiant yn yr Eisteddfod;
- sicrhau bod mwy o gystadlaethau yn cael eu darlledu ar y teledu a radio, er mwyn codi statws;
- cyflwyno cystadlaethau ysgafnach;
- lleihau'r tâl cystadlu;
- sicrhau tegwch i gystadleuwyr o ran lleoliad y gystadleuaeth, yr adnoddau technegol a darlledu enillwyr.

Y syniadau mwyaf cyffredin i'w cynnig ar gyfer gwella'r wybodaeth mae'r Eisteddfod yn ei ryddhau i ddarpar gystadleuwyr oedd:

- darparu gwybodaeth wedi ei theilwra yn uniongyrchol i fudiadau, corau, clybiau, ysgolion a cholegau a 'thargedu mwy bwriadol';
- cysylltu yn uniongyrchol gyda chyn-gystadleuwyr i'w hysbysu am gystadlaethau fyddai o ddiddordeb iddynt;
- cydweithio gydag Eisteddfod yr Urdd er mwyn rhannu gwybodaeth gyda'u cystadleuwyr hwy am gystadlaethau plant a phobl ifanc yr Eisteddfod;
- hyrwyddo cystadlaethau penodol drwy gyfryngau cymdeithasol a dulliau cyfryngol mwy traddodiadol eraill (e.e. teledu, radio, papurau bro ayb);
- creu (neu wella'r) wefan a chreu ap penodol ar gyfer cystadlu;
- cyhoeddi'r wybodaeth ynghynt.

## 9 Camau Nesaf

Cyflwynodd cwmni OB3 yr argymhellion i'r Bwrdd Rheoli yng nghyfarfod Mai 2022, a chafwyd trafodaeth ar y canfyddiadau. Yn dilyn yr Eisteddfod yng Ngheredigion, cyflwynwyd yr adroddiad yng nghyfarfod pob panel canolog, sef y panelau o wirfoddolwyr sy'n cynrychioli'r genres celfyddydol amrywiol a chystadleuwyr yn strwythur bwyllgorau'r Eisteddfod, a chytunwyd gydag egwyddorion yr adroddiad, er bod gan ambell banel farn am yr elfennau perthnasol i'w meysydd nhw.

Trafodwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor Diwylliannol, sy'n cynnwys cadeiryddion yr holl banelau canolog, ym mis Tachwedd ac yna eto ym mis Chwefror eleni. Rhoddwyd sêl bendith i'r adroddiad a'r camau gweithredol a drafodwyd gan y panelau canolog a'r Pwyllgor Diwylliannol gan Gyngor yr Eisteddfod yn eu cyfarfod ym mis Tachwedd 2022. Rhannwyd canfyddiadau'r adroddiad gyda Phwyllgor Gwaith Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd ym mis Rhagfyr.

Yn dilyn y trafodaethau hyn, cytunwyd i gyflwyno'r elfennau canlynol yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd eleni:

- datblygu dwy ganolfan gystadlu newydd ar y Maes o fewn y Pafiliwn, gydag un yn dal hyd at 1,200 a'r llall yn dal 500 o bobl;
- cysoni'r broses ar gyfer cystadlaethau torfol, gyda rownd gyn-derfynol ar gyfer pob cystadleuaeth ar draws pob un o'n hadrannau, gyda'r tri terfynol yn cael cyfle arall i berfformio;
- cryfhau'r berthynas rhwng ein his-bafiliynau a'r rhaglen gystadlaethau drwy gynnal rowndiau cyn-derfynol ar gyfer unigolion a deuawdau yn y canolfannau hyn;
- rhyddhau'r rhaglen gystadlaethau bron i dri mis yn gynharach na'r arfer, ddiwedd Mawrth;
- newid disgrifiad a theitl y gystadleuaeth Côr Adloniant i Gôr Sioe;
- gwella'r system gofrestru ar gyfer cystadleuwyr gan greu proffil cystadlu sy'n weithredol drwy gydol y broses;
- cyflwyno system uwchlwytho copïau newydd ar gyfer cystadleuwyr.

Penderfynwyd peidio â chynnwys dyddiau penodol ar gyfer y cystadlaethau torfol yn y Rhestr Testunau, er mwyn rhoi hyblygrwydd i staff wrth amserlennu ac wrth edrych i'r dyfodol.

Bydd datblygiadau pellach yn cael eu cyflwyno yn Rhestr Testunau Eisteddfod Rhondda Cynon Taf a fydd ar gael ym Mehefin 2023.

Yn dilyn cyhoeddi'r argymhellion a'r ymateb a gafwyd gan y gymuned gorawl yn arbennig, penderfynodd Bwrdd Rheoli'r Eisteddfod y dylid symud y cystadlaethau corawl yn ôl i'w dyddiau

'arferol' yn ystod yr wythnos, gan fod y penderfyniad i newid dyddiau'r cystadlaethau wedi peri gofid i nifer.  Mae hyn wedi'i wneud a bydd yr amserlen yn cael ei chyhoeddi cyn diwedd Mawrth.

Penderfynodd y Bwrdd y dylid parhau i gysoni'r cystadlaethau torfol drwy gynnal rowndiau cyn-derfynol i bawb, gan fod yr argymhelliad wedi deillio o adroddiad annibynnol, sy'n cynnwys barn ein cystadleuwyr ymysg eraill.  Nid oedd y Bwrdd am weithredu yn erbyn hyn, yn arbennig gan ei fod wedi'i drafod yn lleol, gan ein holl banelau canolog, y Pwyllgor Diwylliannol, y Cyngor, a'r Bwrdd ei hun.  Cafodd y penderfyniad hwn ei dderbyn gan Gyngor yr Eisteddfod ddiwedd Mawrth.